| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

321/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS1**

P.M. DYDD LLUN, 4 Mehefin 2007

(1 awr)

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| 1 | 18 | |
| 2 | 12 | |
| 3 | 20 | |
| ACY | 3 | |
| Cyfanswm | 53 | |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr ar ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig, h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

## 1. Cost gwahardd ysmygu yw gostyngiad o 11% mewn elw

Parhaodd y grŵp tafarnau, *JD Wetherspoon*, i gefnogi cynlluniau ar gyfer gwahardd ysmygu ledled y DU, er iddo weld elw yn ei dafarnau yn yr Alban, sydd eisoes yn rhydd o fwg, yn gostwng 11%. Dywedodd y gadwyn, sydd eisoes wedi gwahardd ysmygu mewn 92 o'i 657 o dafarnau yn y DU, ei bod yn disgwyl effaith *(impact)* oherwydd y ddeddfwriaeth newydd yn 2007, ond ychwanegodd ei bod yn sicr y byddai'r buddion *(benefits)* tymor hir yn gorbwyso *(outweigh)* unrhyw anawsterau tymor byr.

Mae Grŵp *JD Wetherspoon* eisoes wedi gwahardd ysmygu mewn 17 lleoliad yng Nghymru a Lloegr yn 2005 ac o ganlyniad i hynny gostyngodd gwerthiant diodydd 6.5% yn yr allfeydd *(outlets)* hyn. Ar y llaw arall, mae gwerthiant bwyd wedi cynyddu ac mae gwerthiant diodydd wedi dechrau gwella yn raddol yn y tafarnau hyn yn 2006.

*Addaswyd o'r Western Mail, 9 Medi 2006*

*(a)* Nodwch ac eglurwch sut y gall **dau** faes deddfwriaeth, ar wahân i'r ddeddfwriaeth wrth-ysmygu, effeithio ar Grŵp *JD Wetherspoon.* [6]

(i) ..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

(ii) ..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

*(b)* Sut y gallai buddion tymor hir gwahardd ysmygu yn ei allfeydd orbwyso unrhyw anawsterau tymor byr ar gyfer Grŵp *JD Wetherspoon*? [6]

..........................................................................................

..........................................................................................

 ..........................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(c) Trwy wahardd ysmygu mewn rhai o'i dafarnau cyn i hynny fod yn orfodol, gellid dadlau bod Grŵp *JD Wetherspoon* wedi ymddwyn yn foesegol. Trafodwch. [6]

**Cyfanswm Marciau**



**Trosodd.**

**2.** Dechreuodd John Young ei fywyd gweithio mewn **cydweithfa weithwyr** *(workers' co-operative)*, yn gweithgynhyrchu defnydd pacio. Er iddo fwynhau ei waith, roedd John yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y cyflogau cymharol isel a phenderfynodd ymadael â'r gydweithfa, ar ôl cael ei wahodd gan un o'i chystadleuwyr lleol, *JCL Cyf.*, i ymuno â'i fwrdd cyfarwyddwyr. Bu'n rhaid i John ailforgeisio ei dŷ er mwyn codi'r £30 000 yr oedd eu hangen i fod yn gyfranddaliwr ac nid yw wedi edrych yn ôl ers hynny. Heddiw, mae *JCL Cyf.* wedi cyrraedd pwynt lle mae ganddo 4% o farchnad y DU. Mae nifer o'r cyfranddalwyr ar y bwrdd yn gweld cyfle i'r busnes dyfu'n fwy byth ac maent yn dymuno lansio *(float)* y cwmni ar y farchnad stoc, fel cwmni cyfyngedig cyhoeddus (ccc).

*(a)* Amlinellwch brif nodweddion *cydweithfa weithwyr*. [4]

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................

........................................................................................................................................................


........................................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Gwerthuswch benderfyniad cwmni, fel *JCL Cyf.*, i newid o fod yn gwmni cyfyngedig preifat (Cyf.) i fod yn gwmni cyfyngedig cyhoeddus (ccc). [8]

**Cyfanswm Marciau**

## 3. Mae'r *Caterham Seven* yn gar sydd â hanes



Y *Caterham Seven*, a weithgynhyrchir yng Nghaint *(Kent)*, yw syniad pawb o sbortscar traddodiadol. Mae'n fwyaf adnabyddus fel y car a welwyd yn y rhaglen deledu gwlt *(cult)* yn y 1960au, *The Prisoner*, a dyma'r car sydd wedi cael ei rasio fwyaf yn y byd. Mae'n dal i honni mai yntau yw'r car cynhyrchu cyflymaf *(fastest production car)* ar y blaned – yn llwyddo i fynd o 1 i 60 mya mewn 3.4 eiliad. Gweithgynhyrchir 600 ohonynt y flwyddyn, gyda chryn dipyn o **ychwanegiad at werth** yn y broses gynhyrchu.

Efallai bod y *Seven* yn ffurfio ffracsiwn yn unig o'r farchnad o 2.5 miliwn o geir newydd ond mae Simon Neale, Rheolwr-Gyfarwyddwr y cwmni, yn sicr y bydd y busnes yn parhau i dyfu a chreu mwy o swyddi, mewn diwydiant sector eilaidd sydd yn gyffredinol wedi bod yn dirywio yn y DU dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae *Caterham* yn gwerthu ceir mewn mannau mor bell â Japan, De Affrica, De America ac Awstralia; ond yn nes at adref yn Ewrop maent wedi cael rhwystrau *(drawbacks)*, yn enwedig o ran cydymffurfio â rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n newid byth a beunydd.

*Addaswyd o newsvote.bbc.co.uk, 22 Medi 2006*

*(a)* Eglurwch ystyr y term *ychwanegiad at werth* yn y broses gynhyrchu. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* Gan ddefnyddio enghreifftiau, dadansoddwch resymau dros y dirywiad yn sector eilaidd y DU. [8]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Trafodwch y farn bod gan aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd lawer mwy o fuddion nag o rwystrau i fusnesau'r DU. [8]

**Cyfanswm Marciau**